**TGAU**

3000N20-1A

S18-3000N20-1A

# CYMRAEG IAITH

**Uned 2**
**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

DYDD MERCHER, 9 MAI 2018 – BORE

2 awr


## DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A

3000N201A
01

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# TUDALEN WAG

**DARN DARLLEN 1**




Swyddi yn y Diwydiant Ffasiwn yn y Deyrnas Unedig

3000N201A
03

**DARN DARLLEN 2**

GPC Geiriadur Prifysgol Cymru    CARTREF    CYMORTH

ffasiwn

**ffasiwn**
*eb.* ll. *ffasiynau*
Dull (o fyw, gwisgo, ymddwyn ac yn y blaen) sydd mewn bri ar ryw adeg neu mewn lle penodol, modd, arfer, defod; gwedd, ffurf, tebygrwydd

**DARN DARLLEN 3**

# Ffair Ffeirio Ffasiwn



**Oes gennych chi ddillad nad oes arnoch eu hangen?**
**Hoffech chi gael dillad newydd yn rhad?**

Dewch draw i'n ffair ffeirio i gyfnewid dillad! Cewch docyn am bob dilledyn / eitem y byddwch yn ei gyfrannu. Cewch brynu dillad / eitemau newydd gyda'ch tocynnau.

**Dim ond £5 y tocyn**

**Nos Wener**
**1af o Fehefin, 2018**

Eitemau y byddwn yn eu derbyn:
dillad, bagiau, beltiau, esgidiau a sgarffiau



**Holl elw'r noson yn mynd at elusen**

**DARN DARLLEN 4**

EICH DILLAD | CARTREF | DILLAD DIANGEN | GOFALU A THRWSIO | AILFFURFIO AC AILGYLCHU

carueichdillad.org



SYMUD MYNYDDOEDD O DDILLAD: DIWRNOD MEWN FFATRI AILGYLCHU TECSTILAU

**Fe wnaethom ymweld â *Bristol Textile Recyclers* i weld sut maen nhw'n dod o hyd i gartrefi newydd ar gyfer dillad ail law.**

Mae *Bristol Textile Recyclers* yn fusnes teuluol sy'n casglu 100 tunnell o decstilau bob wythnos o siopau elusen lleol a banciau tecstilau. Maen nhw hefyd yn casglu o ysgolion, cynghorau lleol a grwpiau cymunedol eraill i godi arian trwy gyflenwi banciau ailgylchu rhad ac am ddim a threfnu ymgyrchoedd casglu dillad.

Yn ystod ein hymweliad, roedd yn rhyfeddol gweld faint o ddillad, esgidiau, dillad gwely a thecstilau eraill y cartref, y maen nhw'n rhoi trefn arnyn nhw bob dydd.

**Sut caiff dillad a thecstilau eu hailgylchu?**

Pan fydd dillad yn cyrraedd *Bristol Textile Recyclers*, caiff llawer o fagiau eu dadlwytho yn y ffatri. 'Y bryn' yw'r enw a roddir ar y pentwr dillad ac ar adegau prysurach o'r flwyddyn 'y mynydd' yw'r enw sy'n cael ei roi arno!

O'r fan hon, mae cynnwys y bagiau yn mynd ar hyd gwregys cludo i'w rannu â llaw i mewn i un o 160 o gategorïau gwahanol. Mae tîm o tua 40 o staff yn asesu pob eitem i benderfynu pa mor ailddefnyddiadwy ydyn nhw ac i ba farchnad y byddan nhw'n mynd.

Y rhan gyntaf yw'r categori 'hufen' lle mae dillad '*vintage* ac unigryw' yn cael eu hamlygu a'u gwahanu i mewn i gynwysyddion mawr. Yr eitemau eraill a dynnir oddi ar y gwregys cludo ar gyfer y categori 'hufen' yw'r eitemau newydd neu'r rhai sy'n amlwg heb gael eu gwisgo. Caiff y rhain eu gwerthu i farchnadoedd dwyrain Ewrop.

Caiff y rhan fwyaf o stoc *Bristol Textile Recyclers* ei rannu'n ddau gategori. Y categori cyntaf yw dillad haf ailddefnyddiadwy sy'n mynd i ganolbarth Affrica, ac yn ail, dillad gaeaf ailddefnyddiadwy i dde Asia. Mae'r rhain yn cynnwys pob math o eitemau fel crysau-T, ffrogiau, trowsusau, crysau, sgertiau, dillad plant, cotiau ac esgidiau.

Ar ddiwedd pob dydd, caiff tua 20 tunnell o ddillad wedi'u didoli eu pacio mewn bwndeli a'u llwytho ar gynwysyddion yn barod i deithio i'w cyrchfan nesaf. (Os oeddech yn ceisio dyfalu faint yw 20 tunnell, mae'n gyfwerth â phwysau tri eliffant Affricanaidd.)

Yn ogystal â sortio tecstilau, mae *Bristol Textile Recyclers* yn addysgu plant yn rheolaidd am bwysigrwydd ailgylchu mewn gwasanaethau addysgol ac yn cynnig teithiau rhad ac am ddim o gwmpas y ffatri i grwpiau cymunedol, clybiau ac ysgolion. Maen nhw hefyd yn cynnal gweithdai uwchgylchu ac yn gweithio gyda *Labour Behind the Label*, sef ymgyrch ar gyfer hawliau gweithwyr dillad.





**DARN DARLLEN 5**



**Huw 'Ffash'**

**Dod o:** Glanaman, Sir Gaerfyrddin

**Gwaith teledu:** Cyflwynydd ffasiwn ar raglenni 'Pnawn Da' a 'Heno', gan gwmni Tinopolis, S4C

**Astudio:** Caerfyrddin a Llundain

**Wedi gweithio yn:** Milan a Fflorens yn yr Eidal

**Enwau enwog:** Wedi gwisgo enwogion fel Ryan Giggs, Katherine Jenkins a Charlotte Church

**Astudio**
Ar ôl gadael yr ysgol, aeth Huw 'Ffash' i Goleg Celf Caerfyrddin. Roedd eisiau bod yn ddylunydd graffeg. Ond pan oedd yno, gwelodd ei fod yn dda iawn gyda ffasiwn.

**Mynd i Lundain**
Penderfynodd symud i Lundain pan gafodd le i astudio yng Ngholeg Celf Ravensbourne. Roedd rhaid symud o Gaerfyrddin er mwyn cael profiad o fyd ffasiwn. Wedyn astudiodd yn y Coleg Celf Brenhinol yn Llundain.

**Gweithio yn yr Eidal**
Gweithiodd Huw ym Milan a Fflorens yn yr Eidal. Mae'r ddwy ddinas yn enwog iawn am ffasiwn. Ym Milan, roedd yn gweithio gyda chwmni *Max Mara*.

**Symud yn ôl i Lundain**
Gweithiodd i *Warehouse*, brand enwog ar y stryd fawr. Mae'n gweithio yn Llanelli erbyn hyn ac mae'n hoffi'r dre'n fawr gan fod digon o dai coffi a siopau cacennau yno. Mae'n hoff iawn o gacennau!

**Gweithio mewn colegau**
Mae Huw wedi gwneud llawer o waith yn darlithio ar ffasiwn mewn colegau a phrifysgolion.

**Ar y teledu**
Mae Huw yn amlwg iawn ar y teledu ers dros 18 mlynedd. Mae'n gyflwynydd ffasiwn ar raglenni 'Prynhawn Da' a 'Heno'. Ar 'Prynhawn Da', mae'n rhoi gweddnewidiad i wylwyr. Mae'n dewis dillad iddyn nhw, ac mae pobl eraill ar y tîm yn gwneud eu gwallt a'u colur. Mae'n mwynhau siopa i chwilio am syniadau newydd. Mae'n rhoi syniadau i ferched am sut i gael delwedd *designer* am brisiau'r stryd fawr. Un her a gafodd ar raglen 'Heno' oedd dod o hyd i wisg gyfan am lai na £50, yn cynnwys esgidiau. Fe lwyddodd drwy siopa yn *T K Max* lle cafodd ddillad ac esgidiau *designer* am bris rhesymol iawn.

**Siop dillad priodas**
Mae gan Huw siop sy'n gwerthu dillad priodas yn Llandeilo sydd wedi ennill nifer o wobrau.

**Dydd Nadolig**
Bydd Huw yn prynu ffedog newydd iddo'i hun bob Nadolig gan mai ef sy'n coginio i'r teulu. Fydd e byth yn gwisgo siwmper Nadolig gan ei bod yn rhy boeth yn y gegin.

**Cyngor**
Does dim ots ganddo roi cyngor a dyma yw ei waith ar y teledu; cynghori merched ar steil y stryd fawr. Bydd yn rhoi cyngor i ferched ar sut i ddewis dillad addas ar gyfer eu hoedran. Mae'n cofio os yw merched y gwaith yn gwisgo'r un ffrog i ddau barti Nadolig!

**DARN DARLLEN 6**

# Steil

OSIAN HUW WILLIAMS

**PRIF LEISYDD Y BAND CANDELAS SY'N SÔN AM EI STEIL WRTH GIGIO AC YMLACIO A'I FREICHLED "SBESHIAL"…**



## STEIL?

Does gen i ddim syniad sut i ddisgrifio fy steil i o wisgo i fod yn onest! Mi fydda' i'n gwisgo fyny i wneud gig achos dw i'n teimlo'i fod o'n gwella'r perfformiad.

Gan 'mod i'n hoffi gwneud ymdrech yn fy ngwaith dw i'n newid i'r gwrthwyneb pan dw i adre. Mae gweddill y Candelas yn gwybod bo fi'n ffan mawr o *'jogging pants'* felly pan dw i'n ymlacio neu yn y stiwdio am amser hir… does 'na ddim byd gwell na gwisgo'r rhain. Maen nhw'n llawer mwy cyfforddus na jîns.

## DILLAD?

Pan dw i'n gigio, mae dillad yn bwysig i fi, ond fel arall dw i ddim yn poeni llawer sut dw i'n edrych. Does gen i ddim amynedd efo strydoedd a siopau prysur. Mae mwyafrif y dillad sydd gen i wedi dod o siop elusen neu siop *vintage* oherwydd mae siopa mewn llefydd fel 'ma yn llawer difyrrach, rhatach ac yn fwy unigryw.

Oherwydd hyn, dw i ddim yn gwario lot ar ddillad. Mi wna' i wario ar gôt ac esgidiau da – ond os gallwch chi gael *duffle coat* drom am £8 mewn siop elusen, does dim angen mynd i wario'n wirion. Dw i ddim yn deall y busnes o orfod cael enw yn amlwg ar ddilledyn. Mi fydda' i wastad yn chwerthin yn gweld pobl efo crysau-T Jack Jones neu rywbeth tebyg – felly mae pobl eisiau enw rhyw ddyn dydyn nhw ddim yn ei 'nabod ar eu dillad? Od!



## GWALLT?

Does 'na ddim llawer yn newid efo fy ngwallt. Mi fydda' i'n prynu *gel* neu *mousse* o rywle a'i rwbio fo i mewn ar ôl cawod. Mi fydda' i'n cael fy nghariad neu fy mrawd i'w dorri fo – defnyddio peiriant i siafio'r ochrau a thorri'r top efo siswrn.

## ESGIDIAU?

Mae'n siŵr mai esgidiau ydy'r dilledyn pwysicaf i mi. *Converse* ydy'r esgid bob dydd ond pan mae'n dod i gigio mae'n rhaid i ddyn gael gwisgo ei sodlau uchel. Mae gen i bâr o fŵts du gan y cwmni *Jeffrey West* (sy'n gwneud esgidiau hollol wallgo') felly mae'n siŵr mai'r rhain ydy fy hoff ddilledyn… a'r drutaf!



## GEMWAITH?

Dw i'n gwisgo breichled gan y cwmni 'Bodoli' ges i gan fy nghariad am ennill Tlws y Cerddor yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 2015.

## CYNGOR STEIL?

Does gen i ddim tips i neb am ddillad. Os ydych chi eisiau gwisgo rhywbeth… cerwch amdani! Ond mi fuasai'r byd 'ma'n lle difyrrach a mwy lliwgar pe tasai 'Jack Jones' a'i ffrindiau yn ei heglu hi o 'ma!